# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015** |
| Amser: | **09.00 – 10.27** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2601**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Jocelyn Davies AC** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Matthew Mortlock, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Jeremy Morgan, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Nick Selwyn, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Ail Clerc)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Jocelyn Davies a oedd yn dirprwyo ar ran Alun Ffred Jones.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Cyflogau Uwch Reolwyr - Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

3.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar Gyflogau Uwch Reolwyr, ynghyd â chyngor yr Archwilydd Cyffredinol.

3.2 Gofynnwyd i ymgynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor ddarparu nodyn briffio ar y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

3.3 Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at CLlLC i ofyn i'r gymdeithas ddosbarthu'r adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru i arweinwyr awdurdodau lleol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Sesiwn Friffio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar Reoli Effaith Newidiadau Diwygio Lles

5.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, a nododd bod y Cadeirydd wedi gofyn am ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad.

5.2 Datganodd Julie Morgan fuddiant am fod ei merch yn cael ei chyflogi gan Shelter Cymru.

## 6 Cwmpas yr Ymchwiliad i Draffyrdd a Chefnffyrdd: Gwerth am Arian

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gwmpas yr ymchwiliad i draffyrdd a chefnffyrdd: gwerth am arian, a chytunodd i ysgrifennu at randdeiliaid i ofyn am eu barn.

## 7 Craffu ar Gyfrifon 2013-14: Trafod y materion allweddol

7.1 Trafododd y Pwyllgor faterion allweddol yr adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2013-14.

7.2 Datganodd Sandy Mewies fuddiant am ei bod yn aelod o Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac esgusododd ei hun o'r trafodaethau ar gyfrifon y Comisiwn.